

# Amserlen

## Penderfyniadau

### Is-bwyllgor Trwyddedu

---

#### I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

#### Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 23 Gorffennaf 2019

Gwnaeth y Is-bwyllgor Trwyddedu y penderfyniadau canlynol ar 23 Gorffennaf 2019, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: Thomas (Cadeirydd), C Ferris

---

#### LIC PAN 04/19

#### Penderfyniad

#### Cais am Dystysgrif Safle Clwb

Trafododd yr Is-bwyllgor y cais a'r sylwadau a wnaed yn ysgrifenedig a'r rhai a wnaed ar lafar gan bob parti yn y gwrandawriad a phenderfynodd y bydd Tystysgrif Clwb yn cael ei gyflwyno ynghyd â'r amodau canlynol:-

- Cyn i unrhyw alcohol gael ei gyflenwi yn y safle, rhaid i'r clwb gyflwyno tystiolaeth i'r Awdurdod Trwyddedu fod gan y clwb o leiaf 25 o aelodau.
- Rhaid i'r Clwb hefyd roi manylion llawn i'r Awdurdod Trwyddedu am ei Swyddogion Pwyllgor a manylion cyswllt ochr yn ochr â'u rolau yn y Clwb yn unol â Chyfansoddiad y Clwb cyn i alcohol gael ei gyflenwi. Os bydd aelod o'r Pwyllgor yn newid, rhaid i'r Pwyllgor hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod i'r newid.
- Dylid rhoi manylion yr Archwilydd, fel a nodir yn y Cyfansoddiad, i'r Awdurdod Trwyddedu cyn i Alcohol gael ei gyflenwi. Rhaid i'r clwb hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig am unrhyw newid i'r cyfrifydd o fewn 14 diwrnod i'r newid.
- Gall pob aelod wahodd uchafswm o dri gwestai yn unig (fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Clwb). Dim ond 15 o westeion sy'n cael eu caniatáu ar y safle ar un adeg oni bai bod swyddog drysau cofrestredig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch yn bresennol ar y safle. Yn yr achos hwn, caniateir uchafswm o 30 o westeion ar y safle.
- Rhaid i bob gwestai gael ei gofnodi yn y llyfr "Gwestai". Rhaid cadw'r llyfr am o leiaf chwe mis a dylid cofnodi'r manylion canlynol yn y llyfr (gall y "llyfr" wrth gwrs fod ar ffurf dyfais electronig) –
  - a) Enw a chyfeiriad y gwestai.
  - b) Enw'r aelod sydd wedi gwahodd y gwestai.
  - c) Dyddiad ac amser y daeth y gwestai i mewn i'r safle
  - ch) Amser pan adawodd y gwestai y safle.

- Dim ond ar gynhyrchu Cerdyn Aelodau y dylid darparu alcohol i bob aelod. Dylai'r cerdyn aelodau gynnwys y manylion canlynol –
  - a) enw
  - b) llun
  - c) Rhif Aelodaeth
  - ch) y dyddiad y daeth yn aelod
- Rhaid i'r teledu cylch cyfyng yn y lleoliad ddangos yr ardal drwyddedadwy gyfan. Rhaid iddo allu recordio am 28 diwrnod a dylai fod ar gael i swyddogion/staff yr heddlu a pherson awdurdodedig arall ar gais.
- Mae polisi Her 25 i'w fabwysiadu yn y clwb. Hyfforddiant staff wedi'i gofnodi'n llawn mewn perthynas â'r polisi hwn, yn ogystal â hyfforddiant ar werthu alcohol i bobl feddw. Bydd posteri yn cael eu harddangos yn y safle i hyrwyddo polisi Her 25
- Bydd ffenestri gwydr triphlyg yn cael eu gosod ar bob ffenestr yn y Clwb
- Bydd inswleiddio yn cael ei osod ym mhob gofod to yn y clwb
- Bydd colfachau ar bob drws a byddant yn cau'n awtomatig a bydd seliau acwstig ar y drysau
- Ni fydd mwy na 6 o bobl yn yr ardal ysmegu ar unrhyw adeg (cwrn y tu ôl i'r safle)
- Ni chaniateir alcohol yn yr ardal ysmegu ar unrhyw adeg
- Bydd goleuadau yn yr ardal ysmegu yn cael eu gosod mewn modd nad yw'n disgleirio i mewn i eiddo cyfagos
- Bydd yr ardal ysmegu'n cau am 10pm
- Ni chaniateir ysmegu ar flaen y safle

## **Ymgynghoriad**

**Gweithredir gan:** Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio  
**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith

---